

Catchphrase Ysbyty Brynaber - Week 80

Key Language

Diwethaf/diweddar/olaf

Definite article with countries: Yr Eidal/Yr Almaen v Cymru/Ffrainc

Cefnder/cyfnither

New Words

Rhynu	to freeze
Yn anffodus	unfortunately
Cystal	as good
Cyfieithu	to translate
Arwyddo	to sign
Diog	lazy
Difyr	interesting; entertaining
Cyfaddef	to admit
Curo	to beat; hit
Agoriadau	keys (NW)
Neidio	to jump
Caredig	kind
Dioddef	to suffer
Gofalus	careful
Tywallt	to pour
Iach	healthy
Gorffwys	to relax
Trafod	to discuss
Bysedd	fingers
Yn effro	awake
Dagrau	tears
Mynd ar goll	to get lost
Chwilio	to search
Perthynas	relative
Cefnder	cousin (male)
Ffael	to fail
Cwato	to hide (SW)
Gwadu	to deny
Cuddio	to hide (NW)
Llefain	to cry
Am byth	forever

Michelle knows something about Chris Roberts but whatever her dark secret is she decides not to spill the beans about him...well, not just yet.

Arwyn - ... wyt ti am ddweud beth ddywedaist ti wrthyf i jyst nawr wrth Brian?

Michelle - I said nothing. That was just between us two and nobody else, alright?

Arwyn - Digon teg...Digon teg...

Brian - Dweud beth? Am beth wyt ti'n sôn?

Arwyn - Secret bach Michelle a fi, Brian - cyfrinach!

Main Grammatical Points

Two words which are easily mixed up are "diweddar" meaning recently or late and "diwethaf" meaning last. Here are some examples of their use:

Es i i'r Alban yn ddiweddar

I went to Scotland recently

Y diweddard Dic Allen

The late Dic Allen

Es i i'r theatr fis diwethaf

I went to the theatre last month

Beth oedd y ffilm ddiwethaf welaist ti?

What was the last film you saw?

"Olaf" also means last - but there's a slight difference between the meaning of "diwethaf" and "olaf". "Diwethaf" is the last thing up to this point, whereas "olaf" is final.

For example, imagine you're waiting for the bus - if you missed "y bws diwethaf", you'd just have to wait for the next one. But if you missed "y bws olaf", you'd probably be quicker walking home!

Agnes refers back to a holiday that she and Brian spent in Italy - Yr Eidal. In Welsh, some countries' names must be preceded by the definite article - y.

Yr Almaen

Germany

Y Swistir

Switzerland

Yr Alban

Scotland

So, if you want to say that you're going to Switzerland this year, you say:

Dw i'n mynd i'r Swistir eleni

Some countries that don't need the definite article in front of them are:

Ffrainc

Mae Richard yn byw yn Ffrainc - Richard lives in France

Gwlad Belg

Maen nhw'n dod o Wlad Belg - They come from Belgium

Sbaen

Ydych chi'n hoffi Sbaen? - Do you like Spain?

But just as in English, we use the definite article in front of:

The United States

Yr Unol Daleithau

The Netherlands

Yr Iseldiroedd

Let's remind ourselves of some of the male and female members of the family:

Mab a merch

son and daughter

Ewythr a Modryb

uncle and aunt

Nai a nith

nephew and niece

Taid a Nain

grandfather and grandmother in NW

Tadcu a Mamgu

grandfather and grandmother in SW

All pretty straightforward - but remember that in Welsh we distinguish between a male cousin and a female cousin.

"Cefnder" is the word for a male cousin - "cefnder"

And "cyfnither" is the word for a female cousin - "cyfnither"

Mae fy nghefnider Dafydd yn chwarae rygbi

My cousin David plays rugby

Mae dy gyfnither Bethan wedi cael babi

Your cousin Bethan has had a baby

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 238

Jac's lost his appetite and is suffering from a nasty cough - but everything eventually it takes its toll on him.

Chris makes the effort to strike up a conversation with Jenny when she comes into the garage.

Geirfa

Rhynu	to freeze
Yn anffodus	unfortunately
Cystal	as good
Cyfieithu	to translate
Arwyddo	to sign
Diog	lazy
Difyr	interesting; entertaining
Cyfaddef	to admit
Curo	to beat; hit

Golygfa 1

Chris - Oer?

Jenny - Ydy. Ofnadwy o oer...Dw i'n rhynu...

Chris - Pwmp dau wyt ti?

Jenny - Ie...Tri deg pum punt.

Chris - Wyt ti isie rhywbeth arall?

Jenny - Nac ydw. Dyna'r cwbl, diolch.

Chris - Rwyd ti ar y ffordd i'r gwaith, wyt ti?

Jenny - Ydw. Yn anffodus....

Chris - Pam anffodus? Dwyt ti ddim yn hoffi dy waith di?

Jenny - O... mae'n iawn... ond os ydy pethau'n mynd yn dda...

Chris - Beth? Ydy pethau'n mynd yn ddrwg ar hyn o bryd?

Jenny - Wel, dydyn nhw ddim cystal. Rhown ni hi felly...

Chris - Sori?

Jenny - Beth?

Chris - Fy Nghymraeg i. Dydy o ddim mor dda â hynny rwyd ti'n gweld.

Jenny - Mae dy Gymraeg di'n dda iawn...

Chris - Ddim really. Wnes i ddweud, "Ydy pethau'n mynd yn ddrwg?". A wnest ti ddweud, "Dydyn nhw ddim cystal. Rhown ni hi felly." Which means?

Jenny - Sori. Dw i'n gorfod meddwl am hyn rwan...Emmm...Ddim cystal...just means not as... not as good as can be hoped for. Something like that. Rhown ni hi felly...is from rhoddwn ni hi felly, which means, let's put it that way. Dw i wedi cyfieithu o'r Saesneg. Sori!

Chris - Slap wrist i ti ynte!

Jenny - Wyt ti'n gweld? Cymraeg pwy sy'n berffaith erbyn hyn?

Chris - Aye.

Jenny - Reit ynte. Well i mi 'seinio' am y petrol yna.

Chris - Diolch i ti...Trideg pum punt plis. Forgotten your name or something?

Jenny - Na. Roeddwn i jyst yn meddwl ...Dylwn i ddweud 'arwyddo' dim 'seinio' ar gyfer 'to sign'. Dw i mor ddiog efo fy Nghymraeg i!

Chris - Nag wyt. That's half the beauty of Welsh - you can stick a "-io" at the end of almost any English verb and people understand you! To like - leicio, to cook - cwco, to drive - dreifio. It's great...

Jenny - Ie, ond mae hoffi, coginio a gyrru yn well o lawer! Reit, lle ma'r papur yna. Well i mi arwyddo fy enw fi!

Chris - Diolch am arwyddo.... Dr. Saunders...

Jenny - Jenny... plis.

Chris - Wel, wel. Sgwrs ddifyr iawn mewn garej ar fore dydd Mawrth! Pwy fuasai'n meddwl?

Golygfa 2

Michelle - Allright?

Jac - Mmmmm?

Michelle - Just saw you sitting here. Looking all alone...

Jac - Paid â phoeni amdanaf i. Dw i'n fine...

Michelle - You don't look too fine to me.

Jac - Dw i'n iawn. Wir i ti.

Michelle - How long have you had that cough?

Jac - Gwranda... dw i'n iawn, honestly.

Michelle - Wyt ti isie cinio?

Jac - Na, dim diolch.

Michelle - We've got a specials menu written up on the -

Jac - Michelle, plis. Dw i ddim isio cinio.

Michelle - Arwyn said to me...

Jac - Beth am Arwyn? Beth mae Arwyn wedi ei ddweud amdanaf i?

Michelle - He says that you've lost your appetite.

Jac - Yeah, well, I've lost a lot of things.

Michelle - Y ferch yma...Agnes, ie?

Jac - Ie...Agnes....

Michelle - You can't get over her, right?

Jac - Na. Dw i wedi trio...Ond dw i wedi methu...

Michelle - Yeah, well. Join the club. I've been there as well...

Jac - Do wir?

Michelle - Pwy sydd ddim...?

Jac - Ie. Pwy sydd ddim, hey?

Y peth ydy...Y peth ydy...Mae hi'n fy ngharu fi. Dw i'n gwybod ei bod hi'n fy ngharu

fi...Ond mae hi'n - sort of...wyt ti'n gwybod...wel, fedar hi ddim cyfaddef hynny. Fedar hi ddim cyfaddef

hynny iddi hi ei hun.

Michelle - Cyfaddef?

Jac - Yes, admit. And it's so frustrating. She just won't admit to herself that she loves me.

Michelle - Pam?

Jac - Mae ganddi ofn ei gŵr hi...It's as simple as that.

Michelle - Beth? This is Brian you're talking about... Brian 'flirty' Rees.

Jac - Brian, ie...Mae gan Agnes ei ofn o. Mae gan Agnes ofn ei fod o'n mynd i'w churo hi... I don't think he's got it in him, but you never know I suppose...

Michelle - I think you need a drink. What'll you have? Sorry, I mean... beth wyt ti eisiau?

Jac - Yr un fath eto, plis..

Michelle - Oh, my God! Jac! Jac!

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 239

Jac's back in hospital and challenges Agnes about her true feelings towards him.

Just as Jenny's leaving for work she's greeted by a rather unexpected face first thing in the morning.

Geirfa

Agoriadau	keys (NW)
Neidio	to jump
Caredig	kind
Dioddef	to suffer
Gofalus	careful
Tywallt	to pour
Iach	healthy
Gorffwys	to relax
Trafod	to discuss
Bysedd	fingers
Yn effro	awake
Dagrau	tears

Golygfa 1

Chris - Ahem...

Jenny - O, emmm, bore da...

Chris - ...Bore da...

Jenny - Dyma sypreis, Chris. Doeddwn i ddim yn disgwyl dy weld di fan hyn...

Chris - Dw i ar fin mynd i'r gwaith...

Jenny - A fi. Os medraf i ddod o hyd i'r agoriadau...

Chris - Wyt ti eisiau help?

Jenny - Na, dim diolch...So, wyt ti'n byw o gwmpas ffordd yma? Wyt ti'n byw yn yr ardal?

Chris - Nag ydw.

Jenny - O'r diwedd! Dyma nhw...

Chris - Dw i'n leicio'r car...Saab....neis.

Jenny - O diolch. Newydd brynu'r car ydw i. Dydy o ddim ond gennyf i ers mis diwethaf.

Chris - Neis iawn...

Jenny - Pa fath o gar sydd gennyf ti?

Chris - ... A dw i'n rili leicio'r lliw hefyd. Classy...

Jenny - O, diolch yn fawr.

Wel... well i mi fynd. Gwaith yn galw.

Chris - Aye...Gwaith yn galw.

Jenny - Neis dy weld di Chris.

Chris - A ti.

Jenny - Emmm, oeddet ti am gerdded i'r garej?

Chris - Oeddwn...

Jenny - Mae'n oer ofnadwy y bore yma. Wyt ti eisiau lifft?

Chris - Na...Diolch and all that, ond dw i'n iawn yn cerdded...

Jenny - O.

Chris - Byddai fe'n...wel...it would mean that you'd have to go out of your way...

Jenny - Mae'r garej jyst rownd y gornel i'r ysbyty...Dydy o ddim lot allan o fy ffordd i o gwbl. Nag ydy?

Chris - Wel, os wyt ti'n siwr...

Jenny - Dw i'n berffaith siwr. Tyrd. Neidia i mewn...C'mon. Beth sydd?

Chris - Dim byd.

Jenny - Wyt ti am ddod i mewn i'r car neu beidio?

Chris - Ydw...Rwyf ti'n ...beth yw'r gair Cymraeg am 'kind' eto?

Jenny - Caredig.

Chris - Aye, caredig. That's it. Rwyf ti'n garedig iawn.

Golygfa 2

Agnes - Byddi di'n falch o glywed bod dim perforation...

Jac - Reit...Dim perforation...Da iawn...Dw i'n falch...

Agnes - Os oes perforation yn y stumog neu'r duodenum...wel, mae hynny yn golygu bod rhaid cael llawdriniaeth...

Jac - Woah. Llawdriniaeth?

Agnes - Ie, surgery. Ond does dim rhaid i ti gael llawdriniaeth. Rwyt ti'n lwcus iawn, Jac.

Jac - Lwcus? Fi? Dw i ddim yn teimlo'n lwcus iawn. Dw i ddim wedi cael llawer o lwc yn ddiweddar ydw i?

Agnes - Wel, rwyt ti wedi bod yn lwcus y tro hwn...

Jac - Beth sy'n mynd i ddigwydd i fi nesaf?

Agnes - Triniaeth H. Pylori.

Jac - Dw i wedi cael hwnnw'n barod.

Agnes - A bydd rhagor. Nes bod yr ulcer yn clirio...

Jac - Mae'r ulcer yn beth poenus. Poenus iawn...

Agnes - Pam wnest ti ddioddef y peth mor hir?

Jac - Doeddwn i ddim yn gwybod bod ulcer gennyf i...

Agnes - Beth tasai'r ulcer wedi datblygu yn peritonitis...

Jac - Dyna ddywedodd y doctor wrthyf fi neithiwr.

Agnes - Rhaid i ti edrych ar ôl dy iechyd, Jac. Rhaid i ti fod yn fwy gofalus.

Jac - Wnei di dywallt diod o ddŵr i mi plis?

Agnes - Glywaist ti beth ddywedais i?

Jac - Do.

Agnes - Y ffordd rwyt ti'n byw, Jac...Dyw e ddim yn iach...

Jac - Dw i'n gwybod...

Agnes - Os wyt ti'n gwybod: pam dwyt ti ddim newid dy ffordd o fyw...?

Jac - Sut?

Agnes - Trwy fwya'n iach...Trwy orffwys...Trwy beidio ag yfed cymaint o gwrw...

Jac - Yeah right. Look - dw i'n byw efo Arwyn rwan, cofia...yeah? Some hope! Mae o'n yfed whiskey i frecwast...

Agnes - Rhaid i ti ofyn iddo fe adel y tŷ. Dy dŷ di yw e.

Jac - Fedraf i ddim. Pwy fuasai'n edrych ar fy ôl i? Dw i angen help. Dydy bywyd ddim yn hawdd mewn cadair olwyn.

Agnes - 'Co ti...Dy ddŵr di...

Jac - Diolch.

Agnes - Gwranda. Mae'n rhaid i fi fynd. Ond dw i'n falch dy fod ti'n well. Dw i'n falch dy fod ti'n gwella...

Jac - Buaswn i'n gwella fwy taswn i'n byw hefo chdi.

Agnes - Rydyn ni wedi trafod hyn...Rydyn ni wedi trafod hyn dro ar ôl tro ar ôl tro...A sa i moyn trafod y peth eto...

Jac - Rwyt ti'n fy ngharu fi...Dw i'n gwybod hynny. Ac rwyt ti'n gwybod sut dw i'n gwybod dy fod ti'n fy ngharu fi?

Agnes - Sut?

Jac - Neithiwr...Pan oeddet ti'n meddwl fy mod i'n cysgu...Wnest ti ddod at y gwely yma...Wnest ti ddod at y gwely a rhedeg dy fysedd trwy fy ngwallt i...

Agnes - Jac!

Jac - Doeddwn i ddim yn cysgu, Agnes... Roeddwn i'n effro...Ac roeddwn i'n medru gweld y dagrau yn dy lygaid di...

Catchphrase Ysbyty Brynaber: Episode 240

Agnes is very emotional and has something important to tell Jac. But how will he react?

Chris turns up at the hospital under false pretences, but it's not long before he admits why he's really there.

Geirfa

Mynd ar goll	to get lost
Chwilio	to search
Perthynas	relative
Cefnder	cousin (male)
Ffael	to fail
Cwato	to hide (SW)
Gwadu	to deny
Cuddio	to hide (NW)
Llefain	to cry
Am byth	forever

Golygfa 1

Jenny - ...math o peptic ulcer?

Agnes - Ie. Ond un poenus iawn. Dw i'n cofio Brian yn cael ulcer flynyddoedd yn ôl. Pan oedden ni ar ein gwyliau yn yr Eidal.

Jenny - Pryd mae Jac yn mynd adref?

Agnes - Prynawn yma. Ond dw i'n beco. Os ydy e'n mynd yn ôl i'w dŷ e...Yn ôl at Brian ac Arwyn...Yn ôl i'r bachelor pad yna...Dyw e ddim yn mynd i edrych ar ôl ei hunan yn iawn...

Jenny - Ond, ddim dy broblem di ydy honno...Bydd Jac yn iawn. Does dim eisiau i ti boeni...Oh, helo yna!

Chris - Hi!

Jenny - Beth wyt ti'n ei wneud yma? Sori - Agnes - dyma Chris - mae o'n gweithio yn y garej. Chris - Agnes...

Chris - Agnes. Hiya...

Agnes - Neis i gwrdd â chi...Wel, well i fi fynd lan i'r ward, Jenny - welaf i di wedyn... Esgusodwch fi Chris.

Jenny - Welaf i di wedyn. Ta ra, Agnes...

Chris - So, fan hyn wyt ti'n gweithio?

Jenny - Ie. Fan hyn...

Chris - Pretty impressive.

Jenny - Chris, beth wyt ti'n ei wneud yma?

Chris - Hawdd mynd ar goll yn y lle yma dw i'n siwr...

Jenny - Ydy, mae'n debyg - os dwyt ti ddim yn gwybod dy ffordd o gwmpas ...Sori, Chris. Ond... wyt ti'n chwilio am ward arbennig?

Chris - Ydw, dyna fe... dw i'n chwilio am ward.

Jenny - Perthynas?

Chris - Beth?

Jenny - Relative. Perthynas ie?

Chris - Ie. Perthynas...

Jenny - Perthynas agos?

Chris - Yeah, my cousin. Dunno what that is in Welsh.

Jenny - Dyn neu ddynes?

Chris - Dyn.

Jenny - Cefnder - that's the word for a male cousin. Emmm, gwranda, wyt ti'n gwybod beth ydy enw'r ward?

Chris - Nag ydw.

Jenny - Dim ots. Beth ydy enw dy gefnder di?

Chris - Sori. Mae hyn yn ...Mae hyn yn bullshit...Dw i ddim wedi dod yma i weld fy nghefnder i...Dw i wedi dod yma i dy weld ti...

Jenny - Fi?

Chris - Ie...Dw i eisiau gofyn rhywbeth i ti...A dw i'n really nervous...Absolutely petrified as a matter of fact...Ond dw i eisiau gofyn rhywbeth pwysig i ti...Rhywbeth really pwysig hefyd...

Jenny - Beth?

Chris - Rwyf ti'n mynd i ddweud 'Na' yn dwyt ti?

Jenny - Dweud 'Na' i beth? Dw i ddim wedi clywed y cwestiwn eto! Sut fedraf i ddweud 'na'?

Chris - Rwyf ti'n mynd i ddweud 'na' ar ôl i mi ofyn i ti ddod mas gyda fi.

Jenny - Sori...? Dyweda hynny eto...Rwyf ti wedi dod yma i ofyn i mi fynd allan hefo ti? Mynd allan ar ddê, wyt ti'n ei feddwl?

Chris - Wel... beth wyt ti'n ei ddweud? Wyt ti eisiau mynd mas am bryd o fwyd gyda fi?

Golygfa 2

Agnes - Jac...?

Jac? Wyt ti'n fy nghlywed i?

Jac - Agnes! Beth sydd?

Agnes - ...Dw i wedi bod yn meddwl...Edrycha...Dw i wedi bod yn meddwl lot am 'bytu hyn...

Jac - Pam? Beth sy'n bod Agnes?

Agnes - Rwyf ti'n iawn.....

Jac - Agnes - paid â chrio..

Agnes - Dw i'n ffael help..

Jac - ...Hey, hey, plis paid â chrio, fy nghariad bach i...Tyrd yma...Tyrd yn nes...

Agnes - Dw i'n ffael cwato dim mwy...Dw i'n ffael gwadu beth dw i'n ei deimlo....Dw i'n ffael gwadu beth dw i'n ei deimlo tuag atati...

Jac - Agnes, does dim rhaid i ti guddio dim...

Agnes - Dw i ddim moyn i ti fynd yn ôl i dy dŷ di...

Jac - Dw i'n dy garu ti gymaint, Agnes...

Agnes - Allaf i ddim gadael i ti fynd yn ôl i'r tŷ yna...

Jac - Dw i ddim eisiau mynd yn ôl...

Agnes - Ddim ar ôl hyn...Dwyf ti ddim am fynd yn ôl...Dw i wedi penderfynu...

Jac - Agnes. Ga' i ddod i fyw atati ti? Plis?

Agnes - Cei...Gei di ddod atati i...Wrth gwrs gei di ddod atati i! Wnaf fi edrych ar dy ôl di... Hei - rwyf ti'n dweud wrthyf i am beidio â llefain...Edrycha arnat ti...Y dagrau mawr yna...

Jac - Rwyf ti wedi fy ngwneud i mor hapus...Rwyf ti wedi fy ngwneud i mor hapus...Fedraf i ddim dechrau dweud wrthyf ti mor hapus ydw i'n teimlo rwan...

Agnes - A fi hefyd...A fi hefyd...

Jac - Ac wyt ti'n gwybod beth? Byddi di a fi yn hapus am byth...

Synopsis

Chris and Jenny seem to have been bumping into each other rather a lot recently! He finally lets the cat out of the bag and tells her that he's gone out of his way to see her for another reason.

Test yourself

1. Alun is the son of your mother's brother. Alun is your...
 - a) ewythr
 - b) cyfnither
 - c) **cefnider**
2. Mari's father is your dad's brother. Is Mari your...
 - a) cefnder?
 - b) **cyfnither?**
 - c) mamgu?
3. Which of these countries does NOT need a definite article in front of it?
 - a) **Albania (Albania)**
 - b) Alban (Scotland)
 - c) Almaen (Germany)
4. You're at the airport and your plane is late. How do you say that in Welsh?
 - a) Mae'r awyren yn ddiweddar.
 - b) Mae'r awyren yn olaf.
 - c) **Mae'r awyren yn hwyr.**
5. The last book you read was 'ardderchog' (excellent). Which of the following is the correct way to refer to 'the last book' in this context?
 - a) Y llyfr diweddar wnes i ei ddarllen.
 - b) Y llyfr olaf wnes i ei ddarllen.
 - c) **Y llyfr diwethaf wnes i ei ddarllen.**
6. How would you say that you saw someone for 'the last time ever'?
 - a) y tro diwethaf
 - b) **y tro olaf**
 - c) y tro hwn